# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (247)

**Dyddiad: Dydd Mercher 16 Chwefror 2011**
**Amser: 13.30**

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

.......................................

### 14.14
### Eitem 2: Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 5 ac 6 gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau.

.......................................

### 15.06
### Cwestiwn Brys

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyhoeddiad a wnaeth ddydd Llun ar yr angen i gael dadl genedlaethol ar yr ystod o gyrsiau Safon Uwch a galwedigaethol ddylai fod ar gael i fyfyrwyr Cymru? – EAQ(3)1658(CEL)

.......................................

### 15.30
### Eitem 3: Dadl ar Setliad yr Heddlu

**NDM4666 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2011-2012 (Setliad Terfynol – Heddlu) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2011.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Canlyniad y bleidlais:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

.......................................

## 16.04
## Eitem 4: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ynghylch Darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer Pobl Ifanc sy’n Agored i Niwed

**NDM4667 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2010.

*Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2011.*

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

.......................................

## 16.41
## Eitem 5: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

**NDM4665 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod aberth ac ymrwymiad y rheini sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu mwy o gefnogaeth i'n cyn-filwyr i gydnabod eu gwasanaeth, drwy ganiatáu iddynt deithio am ddim ar fysiau a darparu mynediad â blaenoriaeth at gymorth iechyd a gofal cymdeithasol a mynediad am ddim i gyfleusterau hamdden llywodraeth leol.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **9** | **4** | **33** | **46** |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu'r cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod aberth ac ymrwymiad y rheini sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog, ac yn gresynu am bob bywyd a gollwyd.

2. Yn croesawu'r arweinyddiaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddangos wrth gefnogi cymuned ehangach y Lluoedd Arfog yng Nghymru, gan gynnwys teuluoedd personél a chyn-filwyr; yn benodol ym meysydd teithio, iechyd, tai ac addysg.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 4 | 9 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y byddai torri rhagor oddi ar gyllidebau llywodraeth leol a thrafnidiaeth yn ei gwneud yn eithriadol o anodd cynnig tocynnau bws am ddim a mynediad am ddim i gyfleusterau hamdden i gyn-filwyr.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 42 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4665**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod aberth ac ymrwymiad y rheini sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog, ac yn gresynu am bob bywyd a gollwyd.

2. Yn croesawu'r arweinyddiaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddangos wrth gefnogi cymuned ehangach y Lluoedd Arfog yng Nghymru, gan gynnwys teuluoedd personél a chyn-filwyr; yn benodol ym meysydd teithio, iechyd, tai ac addysg.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 4 | 9 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

.......................................

**17.45**
**Eitem 6: Dadl Cyfnod 3, o dan Reol Sefydlog 23.57, ynghylch y Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.49, gwaredwyd y gwelliannau yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Mesur arfaethedig.

**Grwpiwyd y gwelliannau at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodwyd yn ôl y grwpiau a ganlyn:**

**1. Technegol ac ieithyddol**

3, 20, 21, 22

**2. Darparu gwybodaeth**

12, 4, 5

**3. Gorfodi**

13, 14, 15, 6

**4. Gwaith adeiladu a oruchwylir gan rywun ac eithrio awdurdodau lleol**

16, 17, 18, 19, 7, 8

**5. Rheoliadau a Gorchmynion**

9, 10, 1, 11, 2

**Cynhaliwyd y pleidleisiau yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli:**

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 13 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 21 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 14 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 15 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 16 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 1 | 4 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 10.**

**Gan fod gwelliant 10 wedi'i dderbyn, methodd gwelliant 1.**

**Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 37 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Barnwyd bod holl adrannau'r Mesur arfaethedig a'r atodlenni iddo wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

.........................................

**18.08**
**Eitem 7: Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 23.58 i gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)**

Cynigiodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod y Mesur arfaethedig yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 23.58.

**Derbyniwyd y Mesur yn unol a Rheol Sefydlog 7.35.**

Mae'r Mesur fel y cafodd ei basio i'w weld drwy ddilyn y linc hwn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-domfiresafety.htm

.........................................

**18.16**
**Cyfnod pleidleisio**

.........................................

**18.20**
**Eitem 8: Dadl fer a ohiriwyd ers 1 Rhagfyr 2010**

**Darren Millar NDM4603:**
Bryniau Clwyd - Trysor Cenedlaethol

.........................................

**18.45**
**Eitem 9: Dadl Fer**

**NDM4668 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**
Methu mynd i'r afael â chanser: Diffyg strategaeth ganser effeithiol ar gyfer Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.12.

.........................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 1 Mawrth 2011**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**